# Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019

**2019 dccc 3**

## RHAN 4

AWDURDODAU RHESTREDIG: GWEITHDREFNAU AR GYFER YMDRIN Â CHWYNION

### 38 Gweithdrefnau enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion: manyleb awdurdodau rhestredig

(1) Caiff yr Ombwdsmon bennu unrhyw awdurdod rhestredig y mae gweithdrefn enghreifftiol yn berthnasol iddo; a rhaid hysbysu'r awdurdod yn unol â hynny.

(2) Pan fo gweithdrefn enghreifftiol yn berthnasol i awdurdod rhestredig yn rhinwedd manyleb o dan is-adran (1), rhaid i'r awdurdod sicrhau bod gweithdrefn ymdrin â chwynion sy'n cydymffurfio â'r weithdrefn enghreifftiol at ddibenion y fanyleb.

(3) Pan fo is-adran (2) yn gymwys, rhaid i'r awdurdod rhestredig gyflwyno ei weithdrefn ymdrin â chwynion i'r Ombwdsmon, ar ôl rhoi ystyriaeth i'r weithdrefn enghreifftiol berthnasol, o fewn chwe mis yn dechrau â'r diwrnod y mae'r awdurdod rhestredig yn cael yr hysbysiad o'r fanyleb o dan is-adran (1).

(4) Caiff awdurdod rhestredig, gyda chydsyniad yr Ombwdsmon, addasu cymhwysiad y weithdrefn enghreifftiol sy'n berthnasol iddo, ond dim ond i'r graddau y bo hynny'n angenrheidiol er mwyn i'r awdurdod weithredu'r weithdrefn yn effeithiol.

(5) Caiff yr Ombwdsmon ddirymu unrhyw fanyleb o dan is-adran (1) ar unrhyw adeg.

(6) Pan fo'r Ombwdsmon yn diddymu manyleb o dan is-adran (5)—

(a) rhaid i'r Ombwdsmon, cyn dirymu'r fanyleb, hysbysu pob awdurdod rhestredig y mae'r fanyleb yn gymwys iddo y bydd y fanyleb yn cael ei dirymu a phryd y bydd y dirymiad yn digwydd, a

(b) ar ddiwrnod dirymu'r fanyleb—

(i) bydd y fanyleb yn peidio â chael effaith, a

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, Adran 38 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 16 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(ii) bydd y ddyletswydd yn is-adran (3) yn peidio â bod yn gymwys i awdurdod rhestredig a hysbyswyd o dan is-adran (6)(a), i'r graddau y mae'r ddyletswydd yn codi mewn perthynas â'r fanyleb a ddirymwyd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 38 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 77(1)**

**I2** A. 38 mewn grym ar 23.7.2019 gan O.S. 2019/1096, **rhl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, Adran 38 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 16 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**

- Act modified by 2023 asc 3 Sch. 2 para. 6
- Act modified by 2023 asc 3 Sch. 12 para. 7(2)

Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

- s. 65(7)(f) inserted by 2022 c. 30 Sch. 10 para. 6(2)(a) (Welsh language text)
- s. 65(7)(f) inserted by 2022 c. 30 Sch. 10 para. 6(2)(b) (English language text)